

Tud 1.

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu nos iau Rhagfyr 7 fed yn y Neuadd Bentref.

Yn Bresennol

Eirwyn Thomas, Annwen Hughes, Kevin Titley, John Evans, Helen Johns, Jane Taylor Williams, Nia Jones

Ymddiheuriadau

Robin Ward, Gwynfor Owen, Luise Vassey

Croeso arbennig I – cyfarwyddwr Aerospace Eryri – Llanbedr – David Young

Cyflwyniad ganddo am y datblygiadau diweddar.

Wedi sicrhau £820,000 o arian grant. Hyn ar gyfer gwella yr adeiladau I'r gorllewin ( west) o'r aerodrome. FFenestri Newydd, er mwyn creu adeiladau sydd yn lan, a chynnes . Ar dull labordai. Gan ddefnyddio adeilladwyr lleol, helpu'r economi leol.

Y danger zone yn ei le, gweithredu dronau o'r safle. Mast cyfathrebu 4G yno, Sydd yn rhoi cyflenwad am ddim I'r ardal lleol. System 02. Arbrofi gyda awyrennau jets. Y dyfodol – mae'r prosiect fel Sand Box – yn edrych ar air traffic control, air space management control. Integrated air space.

Coleg Manceinion yn dal I ddod yno – cyfnod o 3 wythnos. Hyn yn gymorth I'r gwestai, llefydd aros a bwyd a diod.

Am gynnal nifer o ddyddiau agored yn y flwyddyn Newydd.

Yn gefnogol I roi pwysau ar Llywodraeth ar gyfer ffordd Newydd Llanbedr.

Gwaith yn lleol yn bwysig.

Bydd yna "roced test drive" yn nghanol yr aerodrome.

Beth am drafnidiaeth drwy'r Pentref, loriau mawr ac ati – Ddim yn meddwl y bydd yna lawer o loriau mawrion, a dim llwythi o fobl yn gweithio ar yr un tro. Newid yr adeiladau sydd yna yn barod. Loriau bychain, gan obeithio bydd peth o'r Gwaith wedi dar fod erbyn mis Mawrth. Cael diwrnod agored mis Ionawr. Y dyfodol – wedi ei amlinellu yn y "press release" diweddar.

Academic, research bychain o fewn Pryddain. Nid yw'r Llywodraeth mor gefnogol ar hyn a ddisgwyliid. Mae'r Ysgol hedfan yn cael hi'n anodd dal ati.

JE yn holi pa waith ac I ba nifer y mae son am y gweithle yma?

Aros I weld yr ymateb gan Lee Paul ddechrau'r flwyddyn.

Mae'r glidders yn dal ati a hefyd y ralli geir Harlech.

Mae angen rhoi mwy o bethau a hysbysu yn lleol, Ond roedd achos wedi digwydd parthed hyn, ac ychydig o helynt a chwynion wedi eu derbyn ganddynt.

Datgan Buddiant- dim.

Derbyn Cofnodion cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

Tud 2.

Cais Cynllunio Capel Gwynfryn – angen rhoi ATEB I HYN. Pasiwyd I gefnogi y cais yma. Wedi I HJ, ETh, a’r Clerc ymweld yn ddiweddar gyda Aled Lloyd Parc Cenedlaethol Eryri a’r perchennog. Yn bwriadu agor mwy o agoriad I barcio ceir ger y Capel. Rhoi mynediad I’r fynwent yn y talcen y capel, a hefyd agoriad yn y clawdd – llwybr cyhoeddus – fel bod yna agoriad I bobl ymweld a’r fynwent heb ddim rhwystrau. Angen rhybudd o 7 diwrnod os bydd claddedigaeth yn bod.

Adroddiad Cyllid a cyllideb 2024/25

Cofio am hawl I lwfansau Cynghorwyr!!! Angen anfon ffurflen I Gynghorwyr, ac angen llythur yn gwrthod y taliad!!

Hefyd hawl gwariant Amod 137 = £10.81 / etholwr = 420 x 10.81 = cyfanswm o £4540.20

Sylfaen trethiannol Cymuned Llanbedr 2024/2025 = £373.86

Felly os yn codi £20000 o bresept mae’r dreth band D yn Llanbedr yn talu £53.49 y ty.

Yn y banc diwedd Tachwedd mae yna £26277.98

Derbyniwyd £907.36 am gladdu y diweddar Jean Jones

Bydd anfoneb yn cael ei anfon allan parthed claddu y diweddar Mrs Redhead yn fuan.

Angen talu y canlynol

Neuadd £10.00

Clerc –

Microsoft £95

Ad dalu zoom 3 mis = £161.97

Wreath sul y cofio = £20

Agor bedd = £440

Ymlaen I faterion mewn llaw!

1. Y Fynwent – y Gwaith yn symud I Mis Ionawr. ETh yn nodi ei fod wedi prynu chwyn laddwr ar gyfer difa mwsogl o’r llwybr. Ond bod Jason bellach wedi medru ei waredu drwy ddefnyddio power washer
2. Cae Chwarae – wedi talu am yr archwiliad cae chwarae. Gwelir bod nifer o fan faterion angen sylw. Cost o £2980 + TAW o £597. Cyfanswm o £3576 Pasiwyd I wneud y gwaith yma rwan gan bod £2000 wedi ei roi yn y gyllideb. Mae £135 a £415 am drwshio meinciau. Falle bydda modd peidio gneud hyn?

Nododd AH bod Cyngor Dyffryn yn cael archwiliad gan Play Inspection. Cwmni annibynnol. Felly mynd I drïo rhain flwyddyn nesaf! Wel holi am bris ganddynt.

3. Gof golofn – wrth dynnu y fflagiau I lawr ar ol sul y cofio, gwelwyd bod yr un agosa at y ffordd yn eitha rhydd!! Angen cyllido ar gyfer gwelliant.
4. Llwybrau cyhoeddus = wedi talu yr hyn oedd yn ddyledus I John Williams am ei waith. Yn anffodus nid yw am gario ymlaen efo’r Gwaith, ac felly wedi son wrth Jason a Mike am iddynt brisio fel o’r blaen. Hefyd I roi syniad ar drefnu y gyllideb.

Tud 3.

5. Llwybrau ychwanegol – Tyddyn Du
6. Llwybr hygyrch – Coed Garth Goch – gwelwyd yr e bost a anfonwyd allan parthed hyn. Oddi wrth Coed Cadw. Yn disgwyl cael rheolwr l'r ardal yma, ac wedyn fydd modd trafod yn well. Dim ond at y giat haearn mae nhw yn gyfrifol ag o.
7. HAL – bu Eirwyn a Kevin a Morfudd yn y cyfarfod diwethaf. Cofnodion wedi eu hafnion allan at y Cynghorwyr. Bydd plan busnes I fod I gyrraedd erbyn heddiw.

Maent wedi colli y tribunal, nifer o grantiau wedi dod I law. Rhai archwiliadau ddim yn cael eu gwneud tan Mawrth/Ebrill. Dal I bwysu am gyfraniadau gan Gynghorau. Wrth gael cyfraniad presept mae'n golygu bod Cyngor Gwynedd hefyd yn rhwymo I gyfrannu 6000 a 7000 o bunnoedd.

Pwyllgor yma ar y 18eg – anfon gwahoddiadau dros y Sul

8. Ymweliad gyda'r Clerc a Swyddogion Parc Cenedlaethol 5.12.23. Cyflwyno eu hunain, a beth mae'r Cyngor angen gan y Parc, unrhyw drafferthion!

Grantiau posib ar gael e.e. wedi ariannu yn y gorffennol –

Paneli dehongli, solar panels, meinciau, llwybrau at eglwys ,goleuadau nadolig, containers fel storfa Lleiafswm o £5000

Ond mae yna grantiau hyd at £500 hefyd tuag at llesiant, a digwyddiadau.

Yn disgwyl cael linc l'r wefan parthed hyn. Bydda peiriant gwefru hefyd yn ddilys ar gyfer grantiau.

Rhywbeth sydd yn elfen gynladwy ac sydd yn dod a chymuned at eu gilydd. Angen trafod hyn ymhellach, a blaenoriaethu

Adroddiadau Pwyllgorau

AH – Materion Cyngor Gwynedd

1. Toiled wedi ei drwshio. Angen lagio y pibellau.
2. Cyfarfod heddlu yn y Bermo. AH a RW yn mynychu. Mwy o siarad am Bermo. RW yn codi y mater o CCTV.
3. Goleuo Llanbedr – nos wener 8.12.23

Materion Eraill

1. Cyfrif ariannol Neuadd yn mynd lawr. Wedi cael sawl costau yn ddiweddar. Problem efo drws y storfa a drws ffrynt. Wedi rhoi goleuadau I weithio ochr allan l'r adeilad hefyd.

Pasiwyd I gefnogi drwy roi £1500 yn y gyllideb, Bydd cost llogi yn ychwanegol I hyn.

2. JE - "Man hole" ger Ty'r Graig angen ei drwshio.
3. Man hole ger Tyddyn Sian – mae'r tar o'l amgylch wedi torri.
4. Grit wedi ei roi yn y bin Hendre Waelod.
5. KT – yn bwysig bod amserlen y trenau yn rheolaidd. Angen cadw golwg ar hyn
6. JTW – Dail ar ffordd Cypla.
7. JTW – draen wedi cau ochr dde – ffordd cypla (hawdd iawn I geir fynd iddi).
8. JTW – Ble mae'r arwydd – man pasio (eto Ffordd Cypla)

Tud 4.

9. ETh – angen sgubo dail ffordd Garth Goch, llnau y gwterydd a hefyd trwshio y tylla yn y ffordd.
10. AH – eto angen sgubo ffordd Cwm Bychan. Rhain I gyd er diogelwch rhag iddynt rewi!
11. JE – rhaglen 5g ar gyfer Llanbedr. Angen I bobl ddatgan diddordeb.
12. ETh – CCTV camerau yn y Pentref – wedi cael cyfarfod gyda Dragon wi fi parthed hyn. Pawb o blaid hyn.

Cychwyn gyda 4 camera, cost am 4 camera a di coder a bocs recordio tua £2400 . Aerial a lincio I internet y Neuadd. Gellir rhoi hwn yn y gyllideb hefyd.

13. Cyfarfod yn Y Vic – parthed ennillion cyflum a TFW. Bydd cyfarfod eto yn Llanbedr 13.12.23

Angen anfon gwahoddiadau I hwn hefyd.

Cafwyd cyfarfod cadarnhaol yn y Vic.

Materion o bwys yn codi – cysgodfan tren Talwrn Bach.

Barriers dros y ffordd . Y ddau beth yma yn cael eu ystyried eto.

Cyngor Gwynedd – llwybr diogel I'r Ysgol a mannau cysgodfan bysiau.